

Prifysgol Bangor  
**COFNODION PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH Y BRIFYSGOL**

**Cyfarfod:** 10 Mawrth 2021

**Presennol:** Yr Athro G Roberts (Cadeirydd), Miss S Barnes, Mr H Ellis, Mr E Hepburn, Mrs T Hibbert, Dr J Latchford, Yr Athro P Mullins, Dr K Mundy, Mr G Parry, Mrs R Parry, Miss E Riches, Dr H Roberts, Dr G Robinson, Yr Athro P Spencer, Mr H Williams, Mr M Williams, Mr T Williams, Mr G W Jones (Ysgrifennydd)

**Ymddiheuriadau:** Mr A Jones, Mr W Jones, Mr L Wiegand, Dr D Assinder, Mr I Evans, Mrs J Roberts

**Nodyn agoriadol:** Croesawodd y Cadeirydd Mr E Hepburn fel cynrychiolydd newydd y Cyngor. Ymunodd Mr Hepburn â'r Cyngor ym mis Hydref 2020 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Taliadau.

**596. Cofnodion**

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2020.

**597. Materion yn Codi**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**598. Adroddiadau'r Is-bwyllgorau**

**a) Adroddiad yr Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Ymbelydredd**

Cyfarfu'r Is-bwyllgor ar 8 Chwefror 2021 a nododd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. *Gwaith Ffynhonnell Agored:* Mae'r gwaith bellach yn cynyddu yn dilyn y gostyngiad sylweddol a achoswyd gan y pandemig. Mae'r holl weithwyr ymbelydredd diweddar a newydd wedi derbyn hyfforddiant wyneb yn wyneb ar y safle, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei chyfleu a'i deall.
- ii. Roedd galluoedd cyfyngedig yn cyflwyno heriau o ran galluogi i waith ymbelydredd ffynhonnell agored ailgychwyn yn Labordy Ymbelydredd Canolfan yr Amgylchedd Cymru. Mae hyn wedi arwain at newid yn y ffordd y mae'r labordy'n cael ei weithredu, gyda mwy o reolaeth dros bwy sy'n gweithio a phryd. Mae gwaith penwythnos bellach yn cael ei gynllunio i alluogi mwy o waith ffynhonnell agored, gan roi sylw priodol i gyfyngiadau Covid-19. Bydd y Goruchwyliwr Amddiffyn rhag Ymbelydredd ar y safle yn ystod gwaith penwythnos i sicrhau goruchwyliaeth briodol.
- iii. *Radon - Neuaddau:* Gosodwyd 45 o fonitorau radon mewn neuaddau sy'n eiddo i'r Brifysgol ym mis Chwefror 2020. Gan fod llawer o fyfyrwyr wedi dychwelyd adref yn gynnar oherwydd y pandemig, nid oedd y defnydd o ystafelloedd yn adlewyrchu sut byddai pe bai pobl yn y brifysgol fel yr arfer, a chytunwyd gydag Ymgynghorydd Diogelu Ymbelydredd y Brifysgol (RPA) na fyddai'r monitorau'n cael eu casglu. Hysbyswyd lechyd Cyhoeddus Lloegr, sef o le ceir y monitorau.

Pan fydd pobl yn ôl yn yr ystafelloedd fel yr arfer, ailedrychir ar yr arolwg. Nodwyd na fydd yr oedi hwn yn cynyddu risg nac amlygiad i risg.

- iv. *Radiograffeg Wrecsam - Ysgol Gwyddorau Iechyd*: Nid oes unrhyw waith pelydr-X wedi'i wneud. Cyn ailgychwyn y gwaith hwn, mae angen adolygiad o'r Rheolau Lleol, Asesiadau Risg, Dulliau Gweithredu Diogel, a'r cyfyngiadau.
- v. *Sefydliad Dyfodol Niwclear (NFI)*: Cyflwynwyd crynodeb o waith yr NFI. Bydd angen hysbysu'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) o gynllun yr NFI i gynyddu ei stoc o gyfansoddion wraniwm, a bydd angen sicrwydd bod yr holl ofynion rheoliadol perthnasol, gan gynnwys trefniadau diogelwch, yn cael eu bodloni.
- vi. *Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd (RPA) - Ymweliad Blynyddol*: O ganlyniad i ymweliad y Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd â'r safle ddim yn digwydd oherwydd cyfyngiadau Covid, mae archwiliad rhithwir wedi'i gynllunio. Bydd yr archwiliad hwn yn adolygu trefniadau radon, gwaith ffynhonnell agored a defnyddio pelydr-X. Mae'r Swyddog Diogelu rhag Ymbelydredd wedi cadw cysylltiad rheolaidd â'r Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd trwy gydol y pandemig.
- vii. *Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)*: Mae'r archwiliad blynyddol ychydig yn hwyr gydag ymweliad diwethaf CNC ar y safle yn cael ei gynnal ar 14 Chwefror 2020. Ni nodwyd unrhyw broblemau yn ystod yr ymweliad hwn.
- viii. *Laserau*: Nodwyd bod presenoldeb Swyddog Diogelwch Laser y Brifysgol wedi bod yn amhrisiadwy i'r is-bwyllgor, gan sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer gwaith laser ar draws y Brifysgol.

Cafwyd trafodaeth lle rhoddwyd sicrwydd, er na chynhaliwyd ymweliadau blynyddol y Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd a CNC, cynhaliwyd monitro mewnol i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal.

## **b)**

### **Adroddiad yr Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol**

Cyfarfu'r Is-bwyllgor ar 9 Chwefror 2021. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. Cyfyngedig yw'r gwaith a wnaed trwy gydol y pandemig. Fodd bynnag, wrth i staff a myfyrwyr ddychwelyd i'r safle yn raddol, i lawer ar ôl cyfnod hir o absenoldeb o'r campws, nodwyd y bydd angen hyfforddiant gloywi ar gyfer rhai gweithgareddau ac offer risg uwch. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â hyn. Bydd cofnodion yn cael eu cadw o'r holl hyfforddiant.
- ii. *Cypryddau Diogelwch Biolegol*: Bellach mae profion llif aer dros dro wedi'u dogfennu yn cael eu cynnal. Mae hyn i gefnogi profion ac archwiliadau statudol misol 12/14 a drefnir gan y Gwasanaethau Eiddo a Champws (Gwasanaethau Campws).
- iii. *BREXIT: Mewnforio / Allforio Samplau Gwyddonol*: Nodwyd bod yr eithriad cyffredinol o fewnforio / allforio deunyddiau gwyddonol yn Ewrop yn parhau yn ei le.
- iv. *Adolygiad Bioberyglon*: Nid oedd yr adolygiad blynyddol o gyfleusterau biolegol Categori II yn bosibl yn 2020, ac felly bydd yn cael ei gynnal erbyn Ebrill 2021. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad bwrdd gwaith o'r holl Asesiadau Risg GMO.

- v. *Projectau Hysbysadwy (Gweithrediaeth Iechyd a Diogelwch -HSE):* Ar hyn o bryd, ceir dim ond un project Dosbarth II hysbysadwy yn unig, sy'n defnyddio straen 0157 E-coli nad yw'n wenwynig. Mae'r project hwn wedi rhedeg am nifer o flynyddoedd heb ddigwyddiad na phryder.
- vi. Canmolwyd gwaith Dr S Malham a Dr K Farkas i fonitro dŵr gwastraff i nodi lefelau Covid-19 a'r cynnydd yn nifer yr achosion. Diolchwyd i'r technegwyr, staff Gwasanaethau Campws, contractwyr, a'r tîm iechyd a diogelwch am eu cefnogaeth i alluogi i'r gwaith hanfodol hwn ddigwydd.

## 599. **Adroddiad gan y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau**

Mae'r Grŵp Tasg bellach yn cyfarfod yn fisol, gan dynnu sylw at lefel y gwaith sy'n benodol gysylltiedig â Covid-19. Mae'r grŵp tasg wedi cyfarfod tair gwaith ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. Mae'r Gwasanaethau Campws yn parhau i ddarparu diweddariadau rheolaidd ynghylch materion cydymffurfio.
- ii. Mae gwaith y Grŵp Tasg wedi ymwneud yn bennaf â Covid-19 a galluogi gweithgareddau yn y Brifysgol, lle bo hynny'n bosibl. Rhoddir gweithgareddau mewn tri chategori risg 'gwyrdd', 'oren' a 'choch' sy'n adlewyrchu canllawiau Profi, Orlhain a Diogelu ynghylch cyswllt â rhywun sy'n profi'n positif am Covid-19, a'r gofynion hunan-ynysu dilynol. Rhaid adolygu a chymeradwyo pob gweithgaredd lefel 'risg goch' (e.e. gwaith maes a gweithgaredd cyswllt agos) ar y lefel hon.
- iii. Hyd yma, dim ond nifer fach o weithgareddau sydd wedi'u gwrthod. Mae hyn yn adlewyrchu'r trefniadau sydd ar waith ar lefelau Colegau a Gwasanaethau Proffesiynol cyn i'r Grŵp Tasg ystyried gweithgaredd.
- iv. Nodwyd y bydd llawer o staff a myfyrwyr yn fuan yn dymuno teithio dramor ar gyfer eu hastudiaethau/ gwaith. Y gobaith yw y rhoddir mwy o eglurder ar deithio dramor yn ystod araith y Prif Weinidog ar 12 Mawrth neu mewn cyhoeddiadau dilynol.
- v. Derbyniodd y Grŵp Tasg bapur Gwasanaethau Campws yn crynhoi maint y gwaith sy'n ofynnol mewn rhai adeiladau i wella'r modd y caiff tân a mwg eu hatal, a rhannu'r adeiladau hynny'n adrannau. Mae arolwg manylach ar y gweill ar hyn o bryd. Bydd argymhellion yn cael eu hystyried yn unol â risg bosibl.

## 600 **Adroddiad Covid-19**

### a) **Asesiad Risg Covid-19 y Brifysgol**

Nodwyd bod Asesiad Risg Covid-19 sefydliadol wedi'i gynhyrchu gyntaf ar 14 Chwefror 2020 i baratoi ar gyfer bygythiad posibl Covid-19 a sut y gallai effeithio ar weithgareddau'r Brifysgol.

Yn ystod haf 2020, datblygwyd yr Asesiad Risg hwn a ddiweddarwyd yn rheolaidd yn 'Asesiad Risg Covid-19 Dychwelyd i'r Campws' a oedd yn ystyried y risgiau penodol sy'n codi o Covid-19 wrth i'r Brifysgol ailagor, a'r trefniadau oedd yn ofynnol i liniaru'r rhain. Y ddogfen hon bellach yw Asesiad Risg Covid-19 gweithredol y Brifysgol, ac mae'n cael ei diweddarau'n rheolaidd (Fersiwn 8: 12 Ionawr 2021 ar hyn o bryd) i adlewyrchu newidiadau mewn gweithgareddau ac i

sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw gyfyngiadau. Bydd yr Asesiad Risg yn cael ei adolygu ymhellach wrth i gyfyngiadau Rhybudd Lefel 4 gael eu llacio.

**b) Data Covid-19**

Darparwyd crynodeb o'r data Covid-19 sydd ar gael i'r Brifysgol:

- i. Agorodd y Ganolfan Profi Asymptomatig ar y safle ar 30 Tachwedd 2020, i ddechrau i alluogi i fyfyrwyr ddychwelyd adref yn ddiogel ar gyfer y Nadolig. Cynhaliwyd 553 o brofion ar y diwrnod cyntaf. Hyd yma mae dros 8000 o brofion asymptomatig wedi'u cynnal, gyda 17 yn profi'n positif am Covid-19.
- ii. Roedd y prawf positif Covid-19 diwethaf mewn cyfleuster profi asymptomatig ar 25 Ionawr 2021.
- iii. Disgwylir y bydd myfyrwyr yn cael eu hannog yn gryf i gael eu profi cyn dychwelyd adref ar gyfer gwyliau'r Pasg. Ar hyn o bryd mae cyllid ar gael i wneud Profion Asymptomatig tan 1 Ebrill 2021.
- iv. Mae gan y Brifysgol hefyd gyfleuster profi PCR, wedi'i leoli yng Nghanolfan Brailsford, ar gyfer myfyrwyr â symptomau Covid-19.
- v. Hyd yma mae cyfanswm o 372 o brofion positif am Covid-19 wedi'u hysbysu i'r Brifysgol trwy Borth Covid-19 y Brifysgol, neu drwy dimau Profi, Orlhain a Diogelu lleol.
- vi. Mae myfyrwyr sy'n hunanynysu mewn Neuaddau wedi cael cefnogaeth staff y Gwasanaethau Campws, gyda darparu bwyd ac ati. Mae Undeb y Myfyrwyr a gwirfoddolwyr-fyfyrwyr wedi cefnogi myfyrwyr sy'n hunanynysu yn y gymuned leol.

Mynegwyd gwerthfawrogiad i'r Tîm Iechyd a Diogelwch wrth alluogi gweithgareddau i ddigwydd, gan roi sicrwydd i staff a myfyrwyr. Gwelwyd hefyd y derbyniwyd adborth cadarnhaol ar gyfer y Ganolfan Profi Asymptomatig ynghylch pa mor drefnus yw'r Ganolfan, a pha mor gyfeillgar a chymwynasgar yw staff y Ganolfan Profi. Mynegodd H Williams ei werthfawrogiad ar ran Undeb y Myfyrwyr.

**601. Absenoldeb Salwch a Damweiniau - Adroddiad 6 Mis**

Nodwyd yr eitemau canlynol, o'r adroddiad ystadegol hanner blwyddyn ar Ddamweiniau a Digwyddiadau ac Absenoldebau Salwch:

- i. Bu 8 o ddamweiniau a oedd yn ymwneud ag anafiadau, a digwyddodd 7 o'r rheiny i'r staff a'r myfyrwyr.
- ii. Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau RIDDOR adroddadwy (fel y'i diffinnir gan yr HSE) yn y cyfnod.
- iii. Collwyd 2,310 diwrnod gwaith oherwydd absenoldeb salwch yr adroddwyd amdano. Collwyd 333 diwrnod gwaith, a phriodolwyd 26 achos i symptomau Covid-19.
- iv. Mae absenoldebau salwch tymor hir wedi dangos gostyngiad amlwg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf o golli 2593.33 diwrnod yn 17/18, i 1566.96 yn 20/21. Roedd tri achos o absenoldeb salwch tymor hir yn gysylltiedig â Covid-19.

- v. Dim ond mân ddigwyddiadau amgylcheddol a gafwyd yn ymwneud â thipio anghyfreithlon.

**602. Unrhyw Fater Arall**

Nid oedd unrhyw eitemau i'w nodi.

**Trefnwyd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch fel a ganlyn:**

2 Mehefin 2021, 2pm, Ystafell Gynhadledd 3, Y Teras